YSGOL DYFFRYN CONWY

Bwletin i Rieni - Mehefin 2012

DYDDIADAU PWYSIG

Ymweliad Blwyddyn 6
Dydd Llun 25/06/12
Noson Rieni Blwyddyn 6
Dydd Mawrth 26/06/12 - 6.00 yh
Ymweliad Profiad Gwaith Bl 10
Dydd Llun 25/06/12
Profiad Gwaith Bl 10
Gorffennaf 2ail ➔ 6ed 2012
Profiad Gwaith Bl 12
Gorffennaf 2ail ➔ 13eg 2012
Taith y BAC
Gorffennaf 26ain ➔ 27ain 2012
Canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol
Dydd Iau 16/08/12 (9.00 yb - 1.00 yp)
Canlyniadau TGAU Bl 10 ac 11
Dydd Iau 23/08/12 (9.00 yb - 1.00 yp)

Chwaraeon

Sêr Pêl-droed y Dyfodol?

Dymuniadau gorau i Owain Jones wedi iddo dderbyn treialon gyda chlwb Manchester City, i Leon Doran sydd ar lyfrau Oldham Athletic ac i Sam Roberts wedi iddo ddisgleirio yn academi bêl-droed Wrecsam.

Pencampwyr Rygbi Eryri

Yn dilyn llwyddiant aruthrol Clwb Rygbi Nant Conwy, bu tîm dan 18 yr ysgol yn parhau i ddathlu drwy ennill Cwpan Rygbi Eryri i ysgolion a Cholegau. Wedi buddugoliaethau yn erbyn ysgol Eirias ac yna Coleg Meirion Dwyfor, cafwyd buddugoliaeth arbennig yn y 'ffeinal' yn erbyn Ysgol Syr Huw Owen, a Thîm Ysgol Dyffryn Conwy yn llawn haeddu'r anrhydedd o fod yn dîm gorau Eryri. (Ceir adroddiad llawn a lluniau yn ein cylchgrawn Y Bont)

Llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: Canlyniadau Crefft, Celf, Dylunio a Chyfansoddi

Cyfansoddi Cerddoriaeth blynyddoedd 7, 8 a 9 : CYNTAF Cadi Gwyn Edwards 7 Machno
Gwaith Serameg / Crochenwaith Blwyddyn 9 : CYNTAF Branwen Tudur Morus 9W
Gwaith Tecstilau 2D blynyddoedd 7 ac 8 : TRYDYDD Aisha Griffiths 7 Garmon

O'r chwith i'r dde : Aisha Griffiths,
Cadi Gwyn Edwards, Branwen Tudur Morus

Y Gemau Olympaidd yn Cyrraedd Ysgol Dyffryn Conwy gyda llwyddiant ein hathletwyr

Dydd Mawrth 29ain o Fai bydd disgyblion blwyddyn 7 ac athletwyr disglair eraill o'r ysgol yn cymryd rhan yn nhaith y fflam Olympaidd. Fel y gwyddoch ymysg ein disgyblion mae Rachel Johncock sydd newydd ddychwelyd o gynrychioli Prydain Fawr yn y ras gyfnewid. Yn ogystal mae Abbi Backshall wedi rhedeg ar drac y Stadiwm Olympaidd yn barod yn dilyn gwahoddiad i redeg yng ngemau Ysgolion Prydain. Bu llwyddiant ysgubol hefyd i athletwyr yr ysgol ym mhencampwriaeth Athletau'r Sir:

Safleoedd 1af:
Lois Jones - 800m
Abi Backshall - 300m a'r 800m
Emyr Court – Picell
Elin Jones – Naid Hir
Gwawr Wynne – Naid Hir
Lois Roberts – 1500m
Tîm Cyfnewid Merched - 17

Gellir gweld yr holl ganlyniadau ar ein gwefan www.ysgoldyffrynconwy.org

Rachel Johncock - Tîm Athletau Prydain

Mathemategwyr o Fri yn Ysgol Dyffryn Conwy

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth 'Maths Challenge Prifysgol Leeds'. Dyfarnwyd Tystysgrifau Aur i Russell Wingfield ac Owain Jones, (blwyddyn 8) Tystysgrifau Arian i Aron Hughes a Charlotte Wright hefyd o flwyddyn 8 ac i Hannah Roberts a Harry Tong blwyddyn 7.

Dyfarnwyd tystysgrifau efydd i Rory Thorburn a Tomos Arfon, blwyddyn 8 ac i Euros Lloyd blwyddyn 7.

Llongyfarchiadau arbennig i Russell Wingfield sydd hefyd wedi derbyn gwobr anrhydedd y Gymdeithas Wyddonol genedlaethol wedi iddo gystadlu yn y gystadleuaeth Fathemateg. Bydd Russell yn derbyn yr anrhydedd mewn seremoni arbennig ar faes yr Eisteddfod ddydd Iau 7fed o Fehefin



Russell Wingfield

Pob lwc i bawb yn eu harholiadau TGAU, uwch gyfrannol a lefel a

YSGOL DYFFRYN CONWY

Bulletin for Parents - June 2012

IMPORTANT DATES

Year 6 Visit
Monday 25/06/12
Year 6 Parents' Evening
Tuesday 26/06/12 - 6.00 pm
Yr 10 Work Experience Visit
Monday 25/06/12
Yr 10 Work Experience
July 2nd ➔ 6th 2012
Yr 12 Work Experience
July 2nd ➔ 13th 2012
BAC Trip
July 26th ➔ 27th 2012
AS and A Level Results
Thursday 16/08/12 (9.00 am - 1.00 pm)
GCSE Results Yr 10 and 11
Thursday 23/08/12 (9.00 am - 1.00 pm)

Sports

Future Football Stars?

Best wishes to Owain Jones after he was accepted for trials with Manchester City Football Club, to Leon Doran who is on Oldham Athletics' books and to Sam Roberts after he shone at the Wrexham football academy.

Eryri Rugby Championships

Following Clwb Rygbi Nant Conwy's great recent success , the school's under 18 continued to celebrate by winning The Eryri Rugby Cup for schools and colleges. After these victories against Ysgol Eirias and Coleg Meirion Dwyfor, a very special victory was achieved in the final against Ysgol Syr Hugh Owen and Ysgol Dyffryn Conwy were very worthy winners of the title 'Eryri's best team'. (A full report and photographs are in our magazine 'Y Bont')

Urdd National Eisteddfod Success: Art, Craft, Design and Composition Results

Year 7,8 and 9 Music Composition : FIRST Cadi Gwyn Edwards 7 Machno
Ceramics/ Pottery Year 9 : FIRST Branwen Tudur Morus 9W
2D Textiles years 7 and 8 : THIRD Aisha Griffiths 7 Garmon

From left to right: Aisha Griffiths,
Cadi Gwyn Edwards, Branwen Tudur Morus

The Olympic Games arrive at Ysgol Dyffryn Conwy with the success of our athletes

On Tuesday 29th March Year 7 pupils and other outstanding athletes from the school will take part in the journey of the Olympic flame. As you know Rachel Johncock has just returned from representing Great Britain in the relay race. Also Abbi Backshall has run on the Olympic Stadium track already, following an i nvitation to run in the British Schools' games. The school's athletes also had sweeping successes also in the County Athletics Championships:

1st Prizes

Lois Jones - 800m
Abi Backshall - 300m and 800m
Emyr Court – Javelin
Elin Jones – Long Jump
Gwawr Wynne – Long Jump
Lois Roberts – 1500m
Girls' Relay Team - 17

You can see all the results on our website
www.ysgoldyffrynconwy.org

Rachel Johncock - British Athletic Team

Skilled Mathematicians at Ysgol Dyffryn Conwy

Congratulations to Year 7 and 8 pupils for gaining top marks in the 'Leeds University Maths Challenge '.Russell Wingfield and Owain Jones, (year 8) gained Gold Certificates, Aron Hughes and Charlotte Wright also from Year 8 and Hannah Roberts and Harry Tong, Year 7 gained Silver Certificates.

Bronze certificates were awarded to Rory Thorburn and Tomos Arfon, year 8 and to Euros Lloyd year 7.

Special congratulations to Russell Wingfield who has also received The National Science Society's honorary prize after competing in the Mathematics competition. Russell will be presented with this prize in a special ceremony on the Eisteddfod Field on Thursday the 7th of June.



Russell Wingfield

Good luck to everyone sitting GCSE, AS and A level exams